CASTELL-NEDD PORT TALBOT CVS NEATH PORT TALBOT

ADRODDIAD EFFAITH BLYNYDDOL

2025 2026

Gwneud gwir wahaniaeth



28 mlynedd o gefnogi, hyrwyddo a datblygu'r sector gwirfoddol, y sector cymunedol a'r trydydd sector ehangach yng Nghastell-nedd Port Talbot

www.nptcvs.wales







CASTELL-NEDD
PORT TALBOT
CVS
NEATH PORT TALBOT













Cynnwys

4 Gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol

5-6 Crynodeb o'r Flwyddyn

7 Llywodraethu Da

8-10 Cyllid Cynaliadwy

11-12 Gwirfoddoli

13-17 Ymgysylltu a Dylanwadu

18-20 Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

21-24 Gwybodaeth, Cymorth a Datblygu

25 Ymddiriedolwyr a Gweinyddu'r Elusen

26-27 Cyfrifon

ADRODDIAD EFFAITH BLYNYDDOL

2025
2026

Er Cof

Cyflwynir yr adroddiad hwn er cof am y staff a'r gwirfoddolwyr ar draws y Trydydd Sector a fu farw yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn eu cofio nhw a'r effaith a gawsant ac y byddant yn parhau i'w chael trwy eu gwaddol. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w teuluoedd, eu ffrindiau a'u cydweithwyr.



Pwy ydym ni

Mae Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot (GGC Castell-nedd Port Talbot) yn Gyngor Gwirfoddol Sirol ac yn Gwmni Elusennol a sefydlwyd i gefnogi, hyrwyddo a datblygu'r Trydydd Sector yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ei genhadaeth yw hwyluso'r ddeialog a'r bartneriaeth rhwng y sector ei hun a rhwng y sector a'i bartneriaid, ac adeiladu cymunedau diogel a gwydn. Fel mudiad ymbarél y sector, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i feithrin cynaliadwyedd ac i newid bywydau trwy ymgyrchu dros fudiadau gwirfoddol, gan gefnogi gweithredu cymunedol a gwirfoddoli. Mae'r mudiad yn darparu cymorth sy'n cynorthwyo twf a darpariaeth gwasanaethau cynaliadwy, ac yn gweithio i wella canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol ar gyfer unigolion a chymunedau.

Cyllidwyr a Phartneriaid

Mae ein Hadroddiad Effaith Blynyddol yn tynnu sylw at y gwahaniaeth cadarnhaol a wnaed i gymunedau ledled Castell-nedd Port Talbot rhwng 1af Ebrill 2025 a 31ain Mawrth 2026. Ni fyddai'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth barhaus ein cyllidwyr, partneriaid, gwirfoddolwyr a mudiadau cymunedol.

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau a manylion aelodaeth GGC Castell-nedd Port Talbot, ewch i www.nptcvs.wales

Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol @NPTCVS

Gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol

Rhagair

Ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr, rydym yn falch o rannu ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2025-2026. Mae'r adroddiad yn manylu ar ein perfformiad ariannol diweddaraf a'n cyflawniadau craidd, ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth gyfoethog sy'n nodweddu'r sector.

Tirwedd sy'n newid

Mae'r thema o lywio newid digynsail yn parhau i fod yn berthnasol i'r mudiad ac i'r sector ehangach. Mae newidiadau ar lefel genedlaethol a lleol yn parhau i ail-lunio ein hamgylchedd, ochr yn ochr â materion ariannol a materion cymhleth eraill sydd wedi effeithio ar y sector. Trwy gydol y flwyddyn, mae'r tîm wedi gweithio'n galed i helpu grwpiau i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'r gymuned, gan gynnwys i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydweithio â'n cynrychiolwyr etholedig ar draws llywodraeth genedlaethol a lleol i fynd i'r afael â materion systemig.

Cryfhau perthnasoedd strategol

Mae'r rôl rydym yn ei chwarae wrth bontio'r bwlch rhwng grwpiau cymunedol, partneriaid, cyllidwyr, a chyrff cyhoeddus yn bwysicach nag erioed. Trwy hwyluso deialog, a chryfhau ein cydberthnasau strategol, rydym wedi hyrwyddo blaenoriaethau cyffredin ac wedi ysgogi camau cydweithredol. Yn yr adroddiad mae enghreifftiau o'r gwaith hwn trwy gydol y flwyddyn adrodd. Bydd ffocws o'r newydd ar y cydberthnasau hyn yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol, gwell comisiynu, mwy o gyrhaeddiad ac effaith mewn cymunedau a dylanwad ar bolisïau.

Edrych ymlaen

Er bod yna heriau sylweddol o hyd a rhai newydd yn dod i'r amlwg, mae ein profiad yn profi bod effaith ryfeddol yn bosibl pan fyddwn yn gwneud y mwyaf o'n hymdrechion ar y cyd a'r adnoddau a rennir gennym. Enghraifft drawiadol o hyn oedd ein digwyddiad Dathlu Gwirfoddoli blynyddol a wnaeth gydnabod grwpiau ac unigolion ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, amrywiaeth, dysgu, y celfyddydau, treftadaeth, gwasanaethau ieuenctid a chwaraeon. Dangosodd y straeon a rannwyd yr effaith ddofn y mae unigolion a grwpiau sy'n rhoi rhywbeth yn ôl yn ei chael, ac maent yn dangos bod ein cymunedau yn wydn, yn gallu addasu ac wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn diwylliant bywiog lle mae pawb yn cefnogi ei gilydd.

Fel Cadeirydd a Chyfarwyddwr Gweithredol, mae'n fraint gennym arwain y mudiad. Nid yw'n bosibl cyflawni'r gwaith y mae'n ei wneud heb ymdrech a chymorth cyfunol ein haelodau, ein gwirfoddolwyr, ein cyllidwyr a'n partneriaid, yr ydym yn eu cydnabod ac yn ddiolchgar iawn amdanynt. Hoffem ddiolch i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr ymroddedig am ymddiried yn y mudiad i wneud gwir wahaniaeth. Rydym hefyd yn cydnabod y gwasanaeth hir a roddwyd gan Gyfarwyddwr blaenorol y mudiad, Gaynor Richards, a arweiniodd y mudiad am 29 mlynedd ac a ymddeolodd ym mis Rhagfyr 2025. Dymunwn yn dda iddi yn ei hymddeoliad.



Tony Potts

Cyfarwyddwr Gweithredol



Dr Edward M Roberts

MBE DL CStJ FRCGP

Cadeirydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr

Crynodeb o'r Flwyddyn

Llywodraethu

89 o grwpiau wedi'u cynorthwyo i ddiweddaru a chryfhau eu trefniadau llywodraethu

26 o grwpiau neu wasanaethau newydd wedi'u sefydlu i ymateb i anghenion lleol

15 o fudiadau wedi cael cymorth dwys i gynnal llywodraethu da

25 o fentrau cymdeithasol wedi cael cymorth llywodraethu a chyllid

Cyllid Cynaliadwy

£4,658,769 o gyllid wedi'i sicrhau gan grwpiau yn dilyn cyngor a chymorth

£116,844 wedi'i ddosbarthu i 35 o fudiadau trwy dri chynllun grant

189 o fudiadau wedi'u cynorthwyo i gael gafael ar gyllid

15 o ddigwyddiadau Cwrdd â'r Cyllidwr wedi'u cynnal, gan helpu 77 o fudiadau i ymgysylltu â 13 o gyllidwyr

Gwirfoddoli

231 o unigolion wedi cael cymorth i wirfoddoli

101 o fudiadau wedi'u cynorthwyo i ymgymryd ag arfer da ym maes gwirfoddoli

132 o gyfleoedd gwirfoddoli wedi'u hyrwyddo

5 Cyfarfod Grŵp Cymorth Cymheiriaid Rheolwyr Gwirfoddolwyr wedi'u cynnal

Crynodeb o'r Flwyddyn

Ymgysylltu a Dylanwadu

118 o grwpiau cynllunio strategol a gweithgorau wedi'u mynychu

28 o fforymau a rhwydweithiau wedi'u hwyluso, a 463 o unigolion wedi eu mynychu

42 o ofalwyr wedi'u cyfeirio at wasanaethau cymorth lleol

57 o aelodau newydd wedi ymgysylltu trwy ein Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol

1,259 o bobl wedi ymgysylltu trwy 71 o sesiynau Chai a Sgwrs

Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

352 o atgyfeiriadau wedi dod i law'r gwasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol

1,108 o apwyntiadau cymorth lles emosiynol wedi'u cynnig

263 o atgyfeiriadau wedi dod i law'r Gwasanaeth Lles Cymunedol

30 atgyfeiriadau a wnaed i sefydliadau cymunedol

Gwybodaeth, Cymorth a Datblygu

6,108 o ryngweithiadau ag unigolion

576 o fudiadau wedi cael cyngor ac arweiniad uniongyrchol

14 o gyrsiau hyfforddi wedi'u trefnu, 104 o gyfranogwyr wedi'u mynychu

3,373 o edrychiadau bob mis ar gyfartaledd ar dudalennau'r wefan

Llywodraethu Da

Gwnaethom ddarparu cyngor ac arweiniad i gryfhau llywodraethu ar draws y Trydydd Sector. Gwnaeth y gwaith a wnaed gennym helpu aelodau pwyllgorau, cyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr i feithrin yr hyder, y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain eu mudiadau'n effeithiol.

Uchafbwyntiau:

89 o grwpiau wedi'u cynorthwyo i ddiweddaru a chryfhau eu trefniadau llywodraethu.

26 o grwpiau neu wasanaethau newydd wedi'u sefydlu i ymateb i anghenion lleol.

15 o fudiadau wedi cael cymorth dwys i gynnal trefniadau llywodraethu da a goresgyn amgylchiadau heriol cymhleth.

25 o fentrau cymdeithasol wedi cael cymorth llywodraethu a chyllid.

Rhwydwaith Cymunedol Cwm Afan Uchaf



Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae Rhwydwaith Cymunedol Cwm Afan Uchaf wedi parhau i ddatblygu a rhoi cyfle i breswylwyr a mudiadau gwirfoddol weithio ar y cyd â phartneriaid allweddol a mynd i'r afael â meysydd gwaith blaenoriaeth cyffredin. Uchafbwynt y flwyddyn oedd Noson Dathlu Cwm Afan Uchaf pan ddaeth mwy nag **80** o wirfoddolwyr o **30** o grwpiau a mudiadau gwirfoddol lleol ynghyd i ddathlu'r rôl hanfodol y mae gwirfoddolwyr lleol yn ei chwarae wrth wneud gwir wahaniaeth yn eu cymunedau.

Gwobr y Brenin am Wasanaeth Gwirfoddol



Mae Gwobr y Brenin am Wasanaeth Gwirfoddol, anrhydedd uchaf y DU i grwpiau gwirfoddoli lleol, yn cydnabod cyfraniadau eithriadol i'w cymunedau.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd cymorth llywodraethu gennym i ddau fudiad lleol a dderbyniodd y wobr:

- Cyfeillion Parc Jersey, grŵp a arweinir gan wirfoddolwyr sy'n gwarchod ac yn dathlu treftadaeth a bioamrywiaeth Parc Jersey yn Llansawel.
- Canolfan Gymunedol Noddfa, canolfan ffyniannus yng Nglyncorrwg, sy'n darparu gweithgareddau, gwasanaethau a chymorth i bobl o bob oedran.

Hoffem longyfarch y ddau fudiad ar y cyflawniad arbennig hwn.

Cyllid Cynaliadwy

Gwnaethom helpu grwpiau cymunedol i sicrhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau hanfodol ledled Castell-nedd Port Talbot. Gwnaethom hefyd reoli rhaglenni grant ar gyfer partneriaid allweddol, gan gyfeirio buddsoddiad i'r mannau lle roedd ei angen fwyaf.

Sicrhaodd y cymorth a roddwyd gennym fod modd cyflawni prosiectau yn amrywio o Hybiau Cynnes a thrafnidiaeth gymunedol i weithgareddau ieuenctid, gerddi cymunedol, gwelliannau effeithlonrwydd ynni a mentrau iechyd.

Uchafbwyntiau:

£4,658,769 o gyllid wedi'i sicrhau gan grwpiau yn dilyn cyngor a chymorth.

£116,844 wedi'i ddosbarthu i 35 o fudiadau trwy dri chynllun grant.

189 o fudiadau wedi'u cynorthwyo i gael gafael ar gyllid.

15 o ddigwyddiadau Cwrdd â'r Cyllidwr wedi'u cynnal, gan helpu 77 o fudiadau i ymgysylltu â 13 o gyllidwyr.

> **"Heb gymorth GGC Castell-nedd Port Talbot, fyddai hi ddim wedi bod yn bosibl sicrhau'r grantiau hyn. Rydym yn ddiolchgar iawn am hyn, a byddwn yn bendant yn estyn allan iddyn nhw ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. (Clwb Pêl-droed Resolfen)"**

ASTUDIAETH ACHOS
Sied Dynion Glyncorrwg

Gyda chyngor un-i-un gan GGC Castell-nedd Port Talbot, llwyddodd Sied Dynion Glyncorrwg i gryfhau ei chais, dangos effaith y prosiect a sicrhau cyllid i gynnal a datblygu'r gwaith mae'n ei wneud yn y gymuned.

> **"Roedd y cymorth, yr arweiniad, y wybodaeth a'r awgrymiadau y gwnaethoch chi eu rhoi yn bwysig iawn wrth gyflawni'r amcan hwnnw. Fe wnaethoch chi helpu i egluro'r canllawiau a sut y gallai'r cais fodloni'r meini prawf perthnasol."**
>
> **(Sied Dynion Glyncorrwg)**



Cyllid Cynaliadwy

Pen Y Cymoedd

Gyda chyllid gan CBC Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd, gwnaethom barhau i roi cymorth datblygu dwys i fudiadau yn ardal y gronfa i feithrin sgiliau, gwybodaeth a hyder y sector.



ASTUDIAETH ACHOS

The Ganu – Neuadd Gymunedol Melin-cwrt

Mae gwirfoddolwyr yn The Ganu – Neuadd Gymunedol Melin-cwrt wedi cael cymorth i gryfhau eu trefniadau llywodraethu, sefydlu elusen newydd, a datrys materion perchnogaeth gyfreithiol, gan greu sylfaen gynaliadwy ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. Trwy ymgynghori â'r gymuned a gweithio mewn partneriaeth, mae'r neuadd wedi ehangu ei gweithgareddau i gynnwys gofod cynnes, digwyddiadau i'r teulu, Sied Dynion Iloeren, a chyrchfan lluniaeth i ymwelwyr â'r ardal. Mae ymgysylltiad cymunedol cryf a gweledigaeth glir y gwirfoddolwyr yn golygu bod y neuadd yn adnodd cymunedol mwyfwy pwysig.



Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Ffynnon Oer (a ddarperir gan Nadara)

Trwy gydol y flwyddyn, gwnaethom ddosbarthu **£55,820** i **16** o grwpiau gwirfoddol yng Nghwm Nedd a Chwm Afan. Defnyddiwyd y cyllid i gefnogi ystod o brosiectau sy'n cynnal asedau lleol, yn hyrwyddo iechyd a lles, yn gwella'r amgylchedd lleol, yn annog gwirfoddoli ac yn meithrin ysbryd cymunedol yn y cymunedau lleol.



Ariannu 'Mugs and Mates' yn YMCA Castell-nedd

Cyllid Cynaliadwy

Grant Bach Unigrwydd ac Ynysigrwydd Castell-nedd Port Talbot

Diolch i Gyngor Castell-nedd Port Talbot a Chydweithredfeydd Clwstwr Lleol Afan, Castell-nedd a'r Cymoedd Uchaf, mae cyfanswm o **£54,465** wedi'i roi i **12** o brosiectau cymunedol i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd. Mae'r cynllun grant yn cynorthwyo amrywiaeth o brosiectau gan gynnwys cyfeillio i bobl hŷn gydag Age Connects, grŵp cymdeithasol newydd i oedolion ag anabledd dysgu gydag Your Voice Advocacy, rhaglen Mums Matter gyda Mind Castell-nedd Port Talbot a chynllun cyfeillio gyda Gig Buddies. Hyd yma, mae **327** o unigolion wedi ymgysylltu â'r prosiectau cymunedol.

51% o gyfranogwyr yn adrodd bod ganddyn nhw fwy o gysylltiad â'u cymuned leol.

60% o gyfranogwyr yn adrodd eu bod yn teimlo'n llai unig a/neu ynysig.

55 o unigolion yn gwirfoddoli yn eu cymuned.

> "Roeddwn i'n teimlo'n isel cyn ymuno â'r prosiect. Doedd dim gweithgareddau y gallwn i fynd iddyn nhw gyda'r nos o'r blaen ac roeddwn i'n meddwl – ai dyma fy mywyd?"
> (Buddiolwr Gig Buddies)

Cynllun Grantiau Bach Iechyd a Lles

Dosbarthwyd cyfanswm o **£36,035** i **8** mudiad diolch i gyllid a dderbyniwyd gan Gydweithredfeydd Clwstwr Lleol Afan, Castell-nedd a'r Cymoedd Uchaf. Sicrhaodd y cyllid fod **301** o unigolion yn gallu cymryd rhan mewn gwasanaethau cymunedol sy'n hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw ac arferion ymddygiad. O ganlyniad i'r cyllid, roedd:

79% o gyfranogwyr yn adrodd eu bod yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw iachach.

66% o gyfranogwyr yn adrodd eu bod yn teimlo'n well yn gorfforol.

81% o gyfranogwyr yn adrodd eu bod yn teimlo'n well yn feddyliol.



Gwirfoddoli

Gwnaeth ein Canolfan Wirfoddoli gysylltu pobl â chyfleoedd ystyrlon a helpu mudiadau i recriwtio, cefnogi a chadw gwirfoddolwyr. Sicrhaodd cyngor, hyfforddiant a gweithgarwch hyrwyddo fod cyfranogiad yn fwy hygyrch, cynhwysol a gwerth chweil.

Uchafbwyntiau:

Wedi helpu 231 o unigolion i feddwl am wirfoddoli.

Wedi helpu 101 o fudiadau i wella arferion rheoli gwirfoddolwyr.

Wedi hyrwyddo 132 o gyfleoedd trwy Gwirfoddoli Cymru.

Wedi hwyluso 5 cyfarfod Grŵp Cymorth Cymheiriaid Rheolwyr Gwirfoddolwyr.

Wedi rhoi 12 o gyflwyniadau ar wirfoddoli i ystod o gynulleidfaoedd.

Gwnaethom hefyd gefnogi lansiad Dull Newydd o Wirfoddoli Llywodraeth Cymru.



“Diolch i’r Gronfa Ieuenctid a’r cymorth a gawsom, roedd modd i ni greu digwyddiad a wnaeth wahaniaeth go iawn – tyfodd ein pobl ifanc mewn hyder a daeth ein cymuned ynghyd o amgylch iechyd meddwl cadarnhaol.” (Derbynnydd grant yn dilyn digwyddiad ‘Youth Feast’ a ariannwyd gan Gronfa Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot)



Gwirfoddoli

Cronfa Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot

Sicrhaodd ein cronfa dan arweiniad pobl ifanc fod pobl ifanc yn gallu llunio a chyflawni prosiectau gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol a oedd yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Cafodd pobl ifanc gyfle i ddatblygu syniadau, cwblhau ceisiadau a gwneud dyfarniadau trwy Banel y Gronfa Pobl Ifanc.

Uchafbwyntiau:

8 gwirfoddolwr ifanc sy'n aelodau o'r panel grant wedi'u cefnogi.

£6,559 wedi'i ddosbarthu i 7 grŵp lleol.

36 o gyfleoedd gwirfoddoli newydd wedi'u creu i bobl ifanc.

32 o wirfoddolwyr ifanc a 374 o fuddiolwyr wedi'u cefnogi.

> "Mae'r gwasanaeth hwn yn hollol wych! Diolch yn fawr am eich amser ac am rannu'r cyfoeth o wybodaeth sydd gennych am wirfoddoli."
> (Helen, gwirfoddolwr yn ystod apwyntiad gwirfoddoli)

Prosiect Gwirfoddoli Anableddau Dysgu

Gan weithio gydag Your Voice Advocacy, gwnaethom sicrhau cyllid gan Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg i gyflwyno prosiect i helpu oedolion ag anabledd dysgu i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli cynhwysol, cymorth wedi'i deilwra ac adnoddau wedi'u cydgynhyrchu.

Sefydlwyd system atgyfeirio a pharu.

Ymgysylltwyd â 19 o fudiadau i wella hygyrchedd.

Datblygwyd 3 adnodd hawdd eu darllen.

ASTUDIAETH ACHOS

Doedd gan un cyfranogwr ddim llawer o hyder na dealltwriaeth o wirfoddoli ar y dechrau. Trwy gymorth un-i-un a gweithgareddau ymarferol, aeth ati i nodi ei gryfderau, archwilio rolau addas ac ennill yr hyder i gymryd y cam nesaf tuag at gymryd rhan yn y gymuned.



Dathlu Gwirfoddoli

Mae ein seremoni Gwobrau Gwirfoddoli blynyddol yn cydnabod gwirfoddolwyr ledled Castell-nedd Port Talbot, gyda 21 o grwpiau ac 19 o unigolion yn derbyn gwobrau a chategori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd.



Ymgysylltu a Dylanwadu

Gwnaethom weithio gyda mudiadau gwirfoddol a chymunedol i sicrhau bod llais y Trydydd Sector yn cael ei gynrychioli wrth wneud penderfyniadau lleol a rhanbarthol, gan helpu i lunio polisïau, gwasanaethau a blaenoriaethau strategol.

Uchafbwyntiau:

Ymgysylltwyd â 118 o bartneriaethau strategol a gweithgorau.

Hwyluso 28 o fforymau, a fynychwyd gan 463 o unigolion.



Fforymau a Rhwydweithiau GGC Castell-nedd Port Talbot

Mae ein fforymau a'n rhwydweithiau yn cysylltu mudiadau gwirfoddol, cymunedau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i rannu gwybodaeth, nodi materion sy'n dod i'r amlwg a chryfhau cydberthnasau ar draws y sector.

- **Fforwm Strategol y Trydydd Sector**
- **Fforwm Plant a Phobl Ifanc**
- **Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Rhanbarthol y Trydydd Sector**
- **Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol**
- **Fforwm y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth**
- **Grŵp Cymorth Cymheiriaid Rheolwyr Gwirfoddolwyr**
- **Rhwydwaith Gofalwyr Di-dâl Rhanbarthol**
- **Rhwydwaith Banking on You, sy'n cefnogi gweithredu ar dlodi a chynhwysiant ariannol**



Ymgysylltu a Dylanwadu





Partneriaethau

Gwnaethom gynrychioli a hyrwyddo'r Trydydd Sector trwy bartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn llywio gwaith cynllunio a datblygu gwasanaethau.

- **Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW)**
- **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot**
- **Partneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi**
- **Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg**
- **Fforwm Gwydnwch Lleol De Cymru**
- **Bwrdd Cynllunio Ardal**
- **Pontio Tata Steel**

Ymgyngoriadau

Gwnaethom gasglu mewnwelediad gan fudiadau'r Trydydd Sector a chynrychioli barn y sector mewn ymgyngoriadau gan gynnwys:

- **Cynigion ar gyfer dull o ymdrin â Chronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru**
- **Strategaeth Genedlaethol Ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl**
- **Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2025-2026**
- **Ymgynghoriad ar Breswyliad a Enillir y Swyddfa Gartref**
- **Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn 2026-2027**

Ymgysylltu a Dylanwadu

Gofalwyr Di-dâl

Gwnaeth y Swyddog Cyswllt Gofalwyr gysylltu â gofalwyr di-dâl ledled Gorllewin Morgannwg a helpu i sicrhau bod eu profiadau yn llywio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Sicrhaodd gweithgarwch ymgysylltu a'r Rhwydwaith Gofalwyr Di-dâl Rhanbarthol fod gofalwyr yn gallu cyfrannu at brosiectau a gwelliannau rhanbarthol.

Uchafbwyntiau:

71 o ddigwyddiadau ymgysylltu.

42 o ofalwyr wedi'u cyfeirio at wasanaethau cymorth lleol.

27 o gyfarfodydd partneriaeth rhanbarthol wedi'u mynychu, gan gynnwys y Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr a grwpiau gorchwyl a gorffen.

92 o gyfathrebiadau penodol am gymorth, gweithgareddau a chyfleoedd wedi'u rhannu.

ASTUDIAETH ACHOS

Daeth y Digwyddiad Gofalwyr Blynyddol â gofalwyr di-dâl, mudiadau cymorth, cynghorau a gwasanaethau iechyd o bob rhan o Orllewin Morgannwg ynghyd. Rhoddodd gyfle i ofalwyr gael gwybodaeth, siarad â gweithwyr proffesiynol a helpu i ddatblygu'r Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol. O'r 143 o ofalwyr a fynychodd, ymunodd 15 â'r Rhwydwaith Gofalwyr Di-dâl Rhanbarthol a mynegodd 6 ddiddordeb mewn prosiectau rhanbarthol yn y dyfodol.

"Diolch am sicrhau bod ein lleisiau'n cael eu clywed a'u deall."

(Gofalwyr Di-dâl)



Ymgysylltu a Dylanwadu

Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol

Sicrhaodd ein rolau datblygu a defnyddwyr gwasanaeth fod partneriaethau yn cael eu cryfhau, bod mudiadau gwirfoddol yn cael eu cynorthwyo a bod datblygiad gwasanaethau iechyd meddwl yn cael ei lywio gan brofiad bywyd.

“Mae cymryd rhan wedi rhoi’r hyder i mi rannu fy mhrofiadau a gwybod bod fy llais yn gallu gwneud gwahaniaeth.”
(Defnyddiwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl)

Uchafbwyntiau:

57 o unigolion a mudiadau newydd wedi ymgysylltu trwy’r Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol.

100 o ymyriadau cyngor a chanllawiau wedi’u darparu.

77 o gyfarfodydd partneriaeth a ffrydiau gwaith wedi’u cefnogi.

10 o unigolion a 5 grŵp cymunedol wedi’u hychwanegu at y Rhwydwaith Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

ASTUDIAETH ACHOS

Mae’r Rhwydwaith Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi helpu pobl â phrofiad bywyd i gymryd rôl fwy gweithredol wrth lunio gwasanaethau. Aeth yr aelodau o fynychu digwyddiadau Coleg Adfer i gyfleoedd hyfforddi a thrafodaethau am grŵp cynghori profiad bywyd newydd i oedolion, gan feithrin hyder a sgiliau a dylanwadu ar ddarpariaeth yn y dyfodol.



Ymgysylltu a Dylanwadu

Cymunedau Amrywiol Iach

Gwnaeth ein prosiect gefnogi cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol trwy sesiynau Chai a Sgwrs wythnosol, gweithgareddau ymgysylltu, hyfforddiant a mentrau ymwybyddiaeth iechyd.

Uchafbwyntiau:

1,259 o bobl wedi ymgysylltu trwy 71 o sesiynau Chai a Sgwrs.

386 o bobl wedi elwa ar gymorth iechyd meddwl, byw'n iach a gweithgareddau cymdeithasol.

17 o bobl wedi ennill cymwysterau Cymorth Cyntaf a Diogelwch Bwyd achrededig.

- **Gwnaethom hefyd helpu Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru i ymgysylltu â chymunedau amrywiol trwy Grant Dywedwch wrth Emma, gan sicrhau bod safbwyntiau lleol yn llywio Cynllun yr Heddlu a Throseddu.**

"Mae Chai a Sgwrs wedi fy helpu i deimlo cysylltiad â'm cymuned, i ddysgu pethau newydd ac i gael gafael ar gymorth pan oedd ei angen arnaf."
(Cyfranogwr Chai a Sgwrs)

Cynllun Iechyd Menywod

Buom yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ymgymryd â gwaith mapio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau cyfranogiad y sector yn y Cynllun Iechyd Menywod a'r Hwb Iechyd Menywod ar-lein cysylltiedig. Yn ogystal, gwahoddwyd cysylltiadau allweddol yn y sector ac yn ein cymunedau i leisio eu barn yn y Rhwydwaith Lleisiau Menywod rhanbarthol ac i gymryd rhan weithredol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwelliannau i wasanaethau.



Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

Mae cefnogi iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn parhau i fod yn un o feysydd allweddol ein gwaith. Trwy bartneriaethau strategol, comisiynu a datblygu gwasanaethau, yn ogystal â gwasanaethau rheng flaen sy'n cefnogi unigolion a chymunedau, gwnaethom barhau i sicrhau bod llais y Trydydd Sector yn cael ei gynrychioli a bod pobl leol yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Gan weithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, awdurdodau lleol, partneriaid rhanbarthol a mudiadau gwirfoddol, gwnaethom helpu i gryfhau lles cymunedol, gwella mynediad at gymorth a chyfrannu at welliannau tymor hwy i wasanaethau iechyd a gofal ar draws Castell-nedd Port Talbot a Gorllewin Morgannwg.



Uchafbwyntiau:

- **Wedi cyd-hwyluso a chyd-gadeirio'r Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Rhanbarthol gyda CGG Abertawe.**
- **Wedi cydlynu adborth y Trydydd Sector ar gynigion ailgomisiynu Byrddau Iechyd.**
- **Wedi cefnogi trefniadau comisiynu a lefel gwasanaeth newydd rhwng y Bwrdd Iechyd a mudiadau gwirfoddol.**
- **Wedi recriwtio a chefnogi cynrychiolwyr y Trydydd Sector ac Arweinwyr Cydweithredol.**

Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

Rhagnodi Cymdeithasol

Gwnaeth ein gwasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol gefnogi lles emosiynol trwy gysylltu pobl â gwasanaethau, grwpiau a gweithgareddau lleol. Gan weithio gyda phractisau meddygon teulu ledled Castell-nedd Port Talbot, bu'n helpu pobl sy'n profi heriau iechyd meddwl isel i gymedrol i fagu hyder a gwella ansawdd eu bywyd.

Uchafbwyntiau:

352 o atgyfeiriadau wedi'u derbyn.

1,108 o apwyntiadau lles emosiynol wedi'u cynnig.

Darparodd y gwasanaeth le diogel i drafod profedigaeth, ynysu, trallod emosiynol a heriau eraill bywyd, gan helpu pobl i wneud newidiadau cadarnhaol.

"Fe ges i fy atgyfeirio at Rhagnodi Cymdeithasol a chafodd fy mywyd ei roi yn ôl ar y trywydd iawn. Aeth fy myd o lwyd tywyll i fyd heulog, llachar."
(Buddiolwr Rhagnodi Cymdeithasol)

ASTUDIAETH ACHOS

Ar ôl colli ei fam, derbyniodd buddiolwr rheolaidd gefnogaeth emosiynol a chysylltiadau â gwasanaethau profedigaeth, cyngor lles a gweithgareddau lleol. Dywedodd fod y cymorth anfeirniadol wedi ei helpu i adennill hyder a chyfeiriad.

"Alla' i ddim diolch digon i chi am yr holl help rydych chi wedi'i roi, fyddwn i ddim wedi gallu gwneud hyn ar fy mhen fy hun."
(Buddiolwr Lles Cymunedol)



Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

Gwasanaeth Lles Cymunedol

Gan weithio gyda phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a'r Trydydd Sector, gwnaeth y gwasanaeth helpu pobl i adael yr ysbyty yn ddiogel, gwella gartref a chael gafael ar gymorth lleol. Sicrhaodd ei ddull cydgysylltiedig fod modd rhyddhau pobl yn amserol a helpodd i leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd.

Uchafbwyntiau:

263 o atgyfeiriadau wedi'u cefnogi trwy'r Hwb Rhyddhau o Ysbytai a Wardiau Rhithwir.

30 o atgyfeiriadau wedi'u gwneud i fudiadau cymunedol.

899 o argymhellion wedi'u darparu i fudiadau a gwasanaethau eraill.

ASTUDIAETH ACHOS

Doedd menyw 81 oed ddim yn gallu dychwelyd adref yn ddiogel ar ôl cael ei derbyn i'r ysbyty. Trefnodd y tîm, ar y cyd â staff yr ysbyty, ei chymydog a chontractwyr arbenigol, i'w chartref gael ei lanhau ar frys, gan ei galluogi i gael ei rhyddhau a chael cymorth parhaus gartref.

Gwerth Cymdeithasol ac Adran 16

Trwy gydol y flwyddyn, gwnaethom weithio gyda phartneriaid ledled Gorllewin Morgannwg i hyrwyddo gwerth cymdeithasol a chryfhau rôl mudiadau'r Trydydd Sector wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Uchafbwyntiau:

- **Wedi cyfrannu at weithgarwch rhanbarthol y Fforwm Gwerth Cymdeithasol ac Adran 16.**
- **Wedi cefnogi gwaith mapio a chasglu tystiolaeth ar gyfranogiad y Trydydd Sector mewn gwasanaethau a gomisiynwyd.**
- **Wedi hwyluso trafodaethau rhwng comisiynwyr a mudiadau trwy Fforwm Strategol y Trydydd Sector.**
- **Wedi gweithio gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot ar werth cymdeithasol lleol a dulliau comisiynu.**

Ein Dull Cymdogaeth



Mae ein Dull Cymdogaeth, sydd wedi'i ariannu gan Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, yn helpu pobl i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach trwy adeiladu cymunedau cryfach sydd wedi'u cysylltu'n well. Mae enghreifftiau o grwpiau a gwasanaethau newydd a ddatblygwyd trwy gynllun ONA yn cynnwys grŵp ymarfer corff cadair freichiau yng Nghilfrew, Sied Dynion yn Resolfen, gofod cynnes newydd i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd yn ardal Port Talbot a darpariaeth canolfan ddydd newydd i bobl oedrannus yng Nghroeserw.

Gwybodaeth, Cymorth a Datblygu

Mae ein gwasanaethau aelodaeth, cyfathrebu, hyfforddiant a digwyddiadau yn sicrhau bod y Trydydd Sector yn cael ei hysbysu a'i gysylltu a'i fod yn meddu ar y wybodaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen trwy gydol y flwyddyn.

Fel canolfan casglu sbwriel leol, gwnaethom hefyd ddarparu offer ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau glanhau yn y gymuned.

Uchafbwyntiau:

- **576 o fudiadau wedi cael cyngor ac arweiniad uniongyrchol.**
- **327 o aelodau wedi cael eu haelodaeth wedi'i hadnewyddu a'i phrosesu.**
- **14 o gyrsiau hyfforddi wedi'u trefnu ar gyfer 104 o gyfranogwyr.**
- **200 o ddilynwyr Facebook newydd a 26,468 o ymweliadau â chynnwys bob mis ar gyfartaledd.**
- **3,373 o edrychiadau ar dudalennau'r wefan bob mis ar gyfartaledd.**
- **850 o ddilynwyr Instagram.**
- **E-gylchlythyr misol wedi'i ddosbarthu i 350 o danysgrifwyr ar gyfartaledd.**





Gwybodaeth, Cymorth a Datblygu



Hyfforddiant Craidd

Darparodd ein Rhaglen Hyfforddi Craidd **14** o gyrsiau ar gyfer **104** o gyfranogwyr o **61** o fudiadau. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd llywodraethu, gwirfoddoli, diogelu, cyllid, ac iechyd a lles, gan helpu cyfranogwyr i feithrin hyder a chael gwybodaeth ymarferol. Tynnodd y gwerthusiad o raglen Hyfforddiant Craidd GGC sylw at y canlynol:

- **100% o gyfranogwyr wedi nodi bod y cyrsiau yn Dda neu'n Ardderchog.**
- **96% wedi nodi bod ganddyn nhw fwy o wybodaeth.**
- **90% wedi nodi bod eu sgiliau wedi gwella.**
- **92% wedi nodi bod ganddyn nhw fwy o hyder i gyflawni eu rôl.**
- **93% wedi nodi bod ganddyn nhw fwy o ymwybyddiaeth o arfer gorau.**
- **79% wedi nodi eu bod yn teimlo'n fwy cysylltiedig â chymorth arbenigol.**



> **"Rhannodd yr hyfforddwr lawer o wybodaeth. Roedd y wybodaeth yn glir ac yn gryno a chafodd ei chyflwyno'n dda. Rwyf wedi dysgu mwy am fy rôl fel ymddiriedolwr."**
> **(Cyfranogwr hyfforddiant)**

Gwybodaeth, Cymorth a Datblygu

Diogelu

Gan ddefnyddio'r swm uwch o arian a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer diogelu, gwnaethom ddarparu hyfforddiant diogelwch personol a gweithio'n unigol i **40** o staff, ymddiriedolwyr a chynrychiolwyr y sector gwirfoddol. Gwnaethom hefyd ddatblygu llyfryn Cael Cymorth Gartref i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu a helpu preswylwyr i aros yn ddiogel wrth ddefnyddio gwasanaethau yn eu cartrefi.



Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Sicrhaodd ein gwefan, ein cylchlythyrau a'n cyfryngau cymdeithasol fod mudiadau gwirfoddol, partneriaid a chymunedau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cadw mewn cysylltiad.



ASTUDIAETH ACHOS

Yn ystod 2025-2026, gwnaethom ailddylunio ein e-gylchlythyr misol i wella hygyrchedd a chysondeb. O fis Ionawr 2026, daeth yn gwbl ddwyieithog, gan gefnogi ein hymrwymiadau o ran y Gymraeg a chaniatáu i ddarllenwyr fanteisio ar gyllid, hyfforddiant, digwyddiadau a newyddion am y sector yn eu dewis iaith.

Daethpwyd â mudiadau gwirfoddol, partneriaid, cyllidwyr a chymunedau ynghyd trwy ddigwyddiadau gan gynnwys:

- **Dathlu Gwirfoddoli**
- **Sesiwn Wybodaeth am y Gronfa Ffyniant Gyffredin**
- **Cynhadledd Gwaith Cymdeithasol Ysbrydoledig**
- **Dathliad Cymuned Cwm Afan Uchaf**
- **Datblygu Maniffesto Cymunedau**
- **Digwyddiad Dathlu a Rhwydweithio'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth**
- **Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl**
- **Digwyddiadau Cwrdd â'r Cyllidwyr**
- **Diwrnod Rhyngwladol y Menywod**
- **Diwrnod Gweithredu Dementia a Diwrnod Cenedlaethol i Bobl Hŷn**
- **Sgyrsiau Cymunedol a Diwrnod Hwyl Iechyd a Lles Cwm Afan Uchaf i'r Teulu**

Gwybodaeth, Cymorth a Datblygu

Gwnaethom hefyd ddathlu a hyrwyddo amrywiaeth o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, Wythnos Gwirfoddolwyr, Wythnos Gofalwyr, Wythnos Elusennau Bach, Wythnos Ymddiriedolwyr, Mis Balchder, Diwrnod Presgripsiynu Cymdeithasol, Diwrnod Hawliau Gofalwyr ac Wythnos Elusennau Cymru.

“Diolch i bawb a fu’n gysylltiedig â chynnal y seremoni wobrwyo hon, ac i’r holl wirfoddolwyr ar draws cymunedau am y gwaith aruthrol rydych chi’n ei wneud.”

(Sioned Williams AS yn dilyn y digwyddiad Dathlu Gwirfoddoli)



“Diolch yn fawr i GGC Castell-nedd Port Talbot am drefnu’r digwyddiad hwn. Roedd yn hyfryd mynd allan i’r gymuned a siarad â’r grŵp hwn o bobl.”

(Awdioleg Gofal Sylfaenol)

“Roedd yr awyrgylch yn wych, roedd y bobl yn gyfeillgar, roedd amrywiaeth fawr o bethau, fe gafodd y plant ddiwrnod gwych.”

(Mynychwr Diwrnod Hwyl Iechyd a Lles Cwm Afan Uchaf i’r Teulu)

“Roedd arweinwyr y grŵp yn barod iawn i wrando ar bryderon, ac fe lwyddais i i gael brechlyn.”

(Mynychwr Sgwrs Gymunedol Clwstwr Castell-nedd)



“Digwyddiad pleserus a drefnwyd yn ardderchog neithiwr a oedd yn dangos yr ystod eang o wirfoddolwyr ymroddedig sy’n cyfoethogi cymuned Castell-nedd Port Talbot.”

(Grŵp Amgylcheddol Bryncoch ar y digwyddiad Dathlu Gwirfoddoli)

Ymddiriedolwyr a Gweinyddu'r Elusen

Bwrdd Ymddiriedolwyr GGC Castell-nedd Port Talbot 2025 -2026

Lelsey Smith	VIEW (DOVE) Limited
Dr Edward M Roberts MBE DL CStJ FRCGP (Cadeirydd)	Clwb Rotari Port Talbot
Barbara Cole (ymddiswyddodd 12.2.26)	Eglwys Sant Catwg
Linda Whittaker (Is-gadeirydd)	Tai Tarian
Amanda Ellis	View (Glyn-nedd) Limited
Hugh James	Plwyf Llansawel
Lorraine Miles	Shopmobility Castell-nedd Port Talbot
Saifur Rahaman	Cymdeithas Gymunedol BME Castell-nedd Port Talbot
Dan McCallum (penodwyd 9.10.25)	Awel Aman Tawe

Gweinyddu'r elusen

Trysorydd	John Flynn
Archwilwyr	Bevan Buckland Audit Ltd (Archwilwyr Statudol) Llawr Gwaelod Cardigan House Castle Court, Parc Menter Abertawe Abertawe SA7 9LA
Bancwyr	Banc Lloyds PLC
Ysgrifennydd y Cwmni	G Richards MBE DL LLD (Anrh) (ymddiswyddodd Rhagfyr 2025) AW Potts (o fis Ionawr 2026)

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU GWASANAETH GWIRFODDOL CYMUNEDOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT CYF

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot Cyf (y 'cwmni elusennol') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Barn ar y datganiadau ariannol cryno

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2026 ac o'r adnoddau sydd wedi dod i mewn a'r ffordd y mae adnoddau wedi'u defnyddio, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Priod gyfrifoldebau'r bwrdd a'r archwilydd

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad materol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn.

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennym yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Llinos Williams (Uwch Archwilydd Statudol)

Ar gyfer ac ar ran Bevan Buckland Audit Ltd

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol

Abertawe SA7 9LA

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL GWASANAETH GWIRFODDOL CYMUNEDOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT CYF AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd 2026	Cyfanswm Cronfeydd 2025
	£	£	£	£
INCWM A GWADDOL O				
Gweithgareddau elusennol				
Gweithgareddau elusennol	340,789	851,575	1,192,364	1,640,484
Incwm arall	53,443	-	53,443	72,037
Cyfanswm	394,232	851,575	1,245,807	1,712,521
GWARIANT AR:				
Gweithgareddau elusennol				
Gweithgareddau elusennol	479,447	842,259	1,321,706	1,752,088
Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau	(10,000)	-	(10,000)	-
INCWM/(GWARIANT) NET	(95,215)	9,316	(85,899)	(39,567)
CYSONI CRONFEYDD				
Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen	1,365,918	416,554	1,782,472	1,822,039
CYFANSWM YR ARIAN A GARIWYD YMLAEN	1,270,703	425,870	1,696,573	1,782,472

GWEITHREDIADAU PARHAUS
Mae'r holl incwm a gwariant wedi deillio o weithgareddau parhaus

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU GWASANAETH GWIRFODDOL CYMUNEDOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT CYF

	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	2026 £	2025 £
ASEDAU SEFYDLOG				
Asedau diriaethol	20,610	324,753	345,363	363,739
Eiddo buddsoddi	-	-	-	120,000
	20,610	324,753	345,363	483,739
ASEDAU CYFREDOL				
Stociau	110,000	-	110,000	-
Dyledwyr	79,180	9,135	88,315	62,416
Buddsoddiadau	179,476	-	179,476	101,764
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	958,002	94,207	1,052,209	1,234,377
	1,326,658	103,342	1,430,000	1,398,557
CREDYDWYR				
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(76,565)	(2,225)	(78,790)	(99,824)
ASEDAU CYFREDOL NET	1,250,093	101,117	1,351,210	1,298,733
CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL	1,270,703	425,870	1,696,573	1,782,472
ASEDAU NET	1,270,703	425,870	1,696,573	1,782,472
CRONFEYDD				
Cronfeydd anghyfyngedig			1,270,703	1,365,918
Cronfeydd cyfyngedig			425,870	416,554
CYFANSWM CRONFEYDD			1,696,573	1,782,472

GWASANAETH GWIRFODDOL CYMUNEDOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT CYF
NODIADAU I'R DATGANIAD ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026

SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

	Ar 01.04.25	Symudiad net mewn cronfeydd wrth gefn	Trosglwyddo rhwng cronfeydd	Ar 31.03.26
Cronfeydd anghyfyngedig				
Cronfeydd anghyfyngedig	17,067	(83,974)	315,000	248,093
Eiddo buddsoddi cronfeydd cyfalaf dynodedig	120,000	(10,000)	-	110,000
Cronfeydd dynodedig	1,207,000	-	(315,000)	892,000
Cronfeydd cyfalaf dynodedig	21,851	(1,241)	-	20,610
	1,365,918	(95,215)	-	1,270,703
Cronfeydd cyfyngedig				
Cronfeydd cyfyngedig	74,666	26,451	-	101,117
Cronfeydd cyfalaf cyfyngedig	341,888	(17,135)	-	324,753
	416,554	9,316	-	425,870
	1,782,472	(85,899)	-	1,696,573

Mae cronfeydd dynodedig yn cynrychioli:	£
Costau critigol	370,000
Cynnal gweithgareddau craidd a datblygu staff	375,000
Cronfa offer TGCh wrth gefn	15,000
Atgyweiriadau mawr	82,000
Cymorth brys ar gyfer y Trydydd Sector	50,000
	892,000
Gwariant cyfalaf dynodedig	130,610
	1,022,610

Cronfa Costau Critigol - Mae'r gronfa costau critigol wedi'i dynodi gan yr ymddiriedolwyr i ddarparu gwydnwch ariannol a chyllid wrth gefn yn erbyn digwyddiadau annisgwyl a allai effeithio ar yr elusen yn gyffredinol.

Cronfa Cynnal Gweithgareddau Craidd a Datblygu Staff - Mae'r gronfa cynnal gweithgareddau craidd a datblygu staff wedi'i dynodi gan yr ymddiriedolwyr i ddarparu digon o adnoddau ariannol i dalu tua phedwar mis o gostau gweithredu craidd, gan gynnwys staffio, gorbenion a gwariant ar ddatblygu staff. Bwriad y gronfa yw sicrhau parhad gwasanaethau a gweithgareddau'r elusen yn ystod cyfnodau o ansicrwydd cyllido neu ostyngiadau dros dro mewn incwm, a chaniatáu buddsoddiad mewn datblygu a chadw staff.

Cronfa Offer TGCh Wrth Gefn - Mae'r gronfa offer TGCh wrth gefn yn ariannu newid ac uwchraddio seilwaith ac offer TGCh yn y dyfodol.

Cronfa Atgyweiriadau Mawr - Mae'r gronfa atgyweiriadau mawr wedi'i dynodi ar gyfer prosiectau atgyweirio a gwella adeiladau sylweddol a ddisgwylir yn y tymor canolig.